

Safbwyntiau o flaen eu gwell



Chris Ryan / Getty Images

Beth petai safbwyntiau yn gorfod mynd o flaen eu gwell yn y llys yn yr un ffordd ag y byddwn yn dyfarnu a yw rhywun yn euog neu'n ddiuog o drosedd?

Dychmygwch petai safbwyntiau yn gorfod cael eu hamddiffyn, eu herlyn ac yna eu dyfarnu'n wir neu'n anwir.

Dychmygwch mai chi yw'r cyfreithiwr ar gyfer amddiffyn y safbwynt hwn:

'YR UNIG AWDURDOD Y DYLEM EI DDILYN YW EIN CYDWYBOD EIN HUNAIN'

Ar ddiwedd achos llys, bydd cyfle i'r cyfreithwyr grynhoi eu dadleuon wrth y barnwr a'r rheithgor. Paratowch eich datganiad cryno yn y ffyrdd a awgrymir isod:

1. Rhaid i chi roi rhesymau pam mae'r safbwynt hwn yn un gwir a dilys.
2. Rhaid i chi gyfeirio at resymau a roddir gan gyfreithiwr yr erlyniad o ran pam NAD yw'r safbwynt hwn yn wir nac yn ddilys, ond yna rhaid i chi esbonio pam mae ei ddadleuon yn wan a bod eich rhai chi yn gryfach.
3. Byddwch yn gorffen drwy atgoffa'r barnwr a'r rheithgor pam mai'r safbwynt hwn sy'n gywir.

Nodir un ffordd bosibl o ddechrau isod:

'Mae llawer yn meddwl bod y datganiad yn wir oherwydd y farn mai Duw roddodd ein cydwybod i ni...'

Nawr dychmygwch mai chi yw'r cyfreithiwr ar gyfer yr erlyniad sy'n ceisio egluro pam NAD yw'r datganiad canlynol yn wir nac yn ddilys:

'NI PIAU'R BYD I WNEUD YR HYN Y DYMUNWN AG EF'

Y tro hwn, byddwch yn:

4. Rhoi rhesymau sy'n herio'r (anghytuno â'r) datganiad ac yn dadlau NAD yw'n wir nac yn ddilys.
5. Cyfeiriwch at rai o'r dadleuon a roddwyd gan gyfreithiwr yr amddiffyniad o blaid y datganiad, ond wedyn esboniwch pam mae ei ddadleuon yn wan a bod eich rhai chi yn gryfach.
6. Gorffennwch drwy atgoffa'r barnwr a'r rheithgor pam NAD yw'r farn hon yn gywir.



Bill Oxford / Getty Images

Nodir un ffordd bosibl o ddechrau isod:

'Byddai llawer yn dadlau bod y safbwynt hwn yn anghywir am fod bodau dynol wedi cael y ddaear gan Dduw...'